



Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd

Cylch Gorchwyl

Isod ceir rhestr o'r sefydliadau sy'n aelodau o'n Grŵp Cyswllt Prosiect:

- Academi Sgiliau Cenedlaethol
- Aelod Cynulliad Arfon
- Aelod Cynulliad Conwy
- Aelod Cynulliad Dwyfor Meirionnydd
- Aelod Cynulliad Ynys Môn
- Aelod Seneddol Arfon
- Aelod Seneddol Conwy
- Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd
- Aelod Seneddol Ynys Môn
- Aelodau Cynulliad Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Aelodau Senedd Ewrop dros Ogledd Cymru
- Aelodau Ward Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Llifon
- Aelodau Ward Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
- Aelodau Ward Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
- Aelodau Ward Cyngor Sir Ynys Môn – Ynys Gybi
- Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
- Carrog Renewables
- CBI Cymru
- Chwarae Teg
- Clwb Rotari Caergybi
- Coleg Menai/Grŵp Llandrillo Menai
- Cwmni Cemaes Cyf
- Cyd-gyngor Safle Gorsaf Bŵer Wylfa
- Cyfeillion y Ddaear
- Cyfoeth Naturiol Cymru (Arsylwi)
- Cymdeithas Amaethyddol Môn/Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
- Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA)
- Cymunedau'n Gyntaf
- Cyngor Cymuned Llanbadrig
- Cyngor Cymuned Llanelian
- Cyngor Cymuned Llanerchymedd
- Cyngor Cymuned Llanfachraeth
- Cyngor Cymuned Llanfaethlu

- Cyngor Cymuned Tref Alaw
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Tref Amlwch
- Cyngor Tref Caergybi
- Cynrychiolydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cynrychiolydd o Gyngor Gwynedd
- Cynrychiolydd Safle yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear / Y Swyddfa Diogelwch Niwclear Sifil
- Defaid.com/CLICarlein
- Dŵr Cymru
- Ffederasiwn Busnesau Bach Môn
- Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Ynys Môn
- Ffederasiwn Sefydliad y Merched Môn
- Ffederasiwn y Busnesau Bach
- Greenpeace
- Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Heddlu Niwclear Sifil
- Heneiddio'n Dda Amlwch
- Hitachi-GE
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Lleisiau Lleol
- Llywodraeth Cymru (Gogledd Cymru) (Arsylwi)
- Magnox Cyf
- Medrwn Môn
- Menter Mechell
- Menter Môn
- Merched y Wawr
- Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru
- Partneriaeth Twristiaeth Ynys MônPAWB
- Prifysgol Bangor
- Rhaglen Ynys Ynni
- Taith i Waith
- Taran
- Twristiaeth Gogledd Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
- Uno'r Undeb
- Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (Arsylwi)
- Ymddiriedolaeth Bodorgan

- Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW)
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Ysgol Gyfun Llangejni
- Ysgol Gynradd Cemaes
- Ysgol Syr Thomas Jones
- Ysgol Uwchradd Bodedern
- Ysgol Uwchradd Caergybi
- Ysgol Uwchradd David Hughes

Y strwythur

- Rôl y Grŵp Cyswllt Prosiect yw hwyluso cyfathrebu rhwng Horizon a'r gymuned.
- Gwahoddir aelodau i gynrychioli buddiannau a phryderon eu grwpiau a'u sefydliadau, a chymryd rhan weithredol ac adeiladol yn y trafodaethau yn ystod cyfarfodydd y Grŵp.
- Bydd gan y Grŵp rôl a strwythur esblygol sy'n parhau trwy gydol y camau cynllunio a datblygu, yn ystod adeiladu, gweithredu a dadgomisiynu.
- Mae'n llwyfan trafod ystyrlon a thryloyw ble gall aelodau'r Grŵp a Horizon godi materion cadarnhaol a negyddol ar gyfer trafodaeth agored a gonest. Ble bynnag y bo'n bosibl, ac yn ymarferol, bydd Horizon yn gweithredu o ganlyniad i'r materion a godir.
- Ble bo angen gwneud penderfyniadau neu argymelliadau, bydd y Cadeirydd yn trefnu pleidlais gan yr aelodau sy'n bresennol.
- Bydd gan bob sefydliad sy'n aelod un bleidlais. Bydd gan Gyngorwyr Cymuned a Thref un bleidlais. Bydd gan Gyngorwyr Sir un bleidlais yr un.
- Bydd unrhyw weithredu gan Horizon o ganlyniad i drafodaethau'r Grŵp yn cael ei adrodd yn ôl i'r Grŵp. Bydd hyn yn dangos y ffordd y mae'r Grŵp wedi cael effaith uniongyrchol ar y broses ddatblygu.
- Cyfyngir cynrychiolaeth yng nghyfarfodydd y Grŵp i un person o bob sefydliad neu grŵp cymunedol. Os na all y cynrychiolydd arferol fod yn bresennol, gall sefydliadau anfon rhywun yn ei lle.
- Mae croeso i'r cyhoedd fynychu, holi cwestiynau, cyfrannu at drafodaethau a chwarae rhan lawn yn y cyfarfod. Ni ddylai aelodau'r cyhoedd bleidleisio.



- Dylai unrhyw un sy'n annerch cyfarfod y Grŵp neu sy'n holi cwestiynau o'r llawr ddechrau trwy nodi eu henw ac, os yn briodol, y sefydliad y maent yn ei gynrychioli.
- Gall aelodaeth y Grŵp ffurfio is-grwpiau i ganolbwyntio ar faterion neu bynciau penodol. Bydd is-grwpiau'n cyfarfod ar wahân a bydd y Cadeirydd yn adrodd yn ôl i'r prif Grŵp ar eu gweithgaredd.

Trefn a rheolaeth y cyfarfodydd

- Bydd y Grŵp Cyswllt Prosiect yn cyfarfod bob chwarter i ddechrau ond fe all benderfynu cyfarfod yn amlach os yw hynny'n briodol.
- Bydd gwahoddiadau ac agenda'n cael eu dosbarthu o leiaf bedair wythnos o flaen llaw ac yn cael eu cyhoeddi ar wefan y prosiect.
- Rhoddir cyfle i aelodau ychwanegu eitemau i'w trafod ar yr agenda cyn bob cyfarfod.
- Bydd cyfarfodydd fel arfer yn dechrau am 5.30pm ac yn gorffen am 7pm.
- Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg yn y lle cyntaf gyda chyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu trwy gydol y cyfarfod.
- Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan Dysgu a Datblygu yn Wylfa. Bydd un cyfarfod o bob pedwar yn cael ei gynnal mewn lleoliad gwahanol a bydd yr aelodau'n cynnig a chytuno ar leoliad addas.
- Bydd cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan y prosiect yn dilyn pob cyfarfod ac yn cael eu dosbarthu i aelodau.

Y cwmpas

Mae cwmpas y Grŵp Cyswllt Prosiect yn hyblyg a bydd yn esblygu wrth i'r prosiect ddatblygu. Mae aelodau wedi mynegi eu bod yn disgwyl trafod y materion canlynol:

- Cyflogaeth
- Cadwyn gyflenwi
- Sgiliau
- Isadeiledd
- Cludiant
- Buddiannau cymunedol
- Iechyd a Diogelwch

- Yr amgylchedd
- Gwasanaethau brys
- Etifeddiaeth

Y gadair

- Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu hethol gan aelodau. Rôl yr Is-gadeirydd fydd gweithredu fel dirprwy i'r Cadeirydd yn ei h/absenoldeb.
- Byddant yn gwasanaethu am gyfnod penodol o ddwy flynedd ac yna gallant ddewis ceisio cael eu hail ethol neu roi'r gorau i'r swydd.
- Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn annibynnol ac nid yn gyflogedig gan Horizon na'i bartneriaid datblygu oni bai bod aelodaeth y Grŵp yn ceisio hynny'n benodol.
- Cyfrifoldeb y gadair yw sicrhau bod cyfarfodydd yn dechrau a gorffen ar amser a'u bod bob amser yn cael eu cynnal mewn modd diduedd a chynhwysol.
- Bydd y gadair yn sicrhau bod pob aelod yn cymryd rhan lawn ac yn cael eu hannog i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau, a bod egwyddorion cyfleoedd cyfartal yn berthnasol bob amser.

Rôl Pŵer Niwclear Horizon

- Mae Pŵer Niwclear Horizon yn ymroddedig i sicrhau bod aelodaeth y Grŵp Cyswllt Prosiect yn cynrychioli trawstoriad o gymuned Ynys Môn.
- Bydd ysgrifenyddiaeth y Grŵp yn cael ei reoli gan Pŵer Niwclear Horizon. Bydd hyn yn cynnwys:
 - Bwcio lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd
 - Anfon gwahoddiadau ac agendâu at aelodau
 - Trefnu cyfieithu ar y pryd / adnoddau ar gyfer pobl sy'n drwm eu clyw
 - Cymryd / dosbarthu cofnodion
 - Sicrhau bod deunyddiau, cyfathrebiad a gohebiaeth berthnasol yn cael eu dosbarthu i bob aelod
 - Diweddarau gwefan y prosiect gyda'r holl ddeunyddiau, gwybodaeth a rhestr lawn o aelodau.